Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Ionawr 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Ionawr 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad .... 3**

Diben y Bil .... 3

Cylch gorchwyl y Pwyllgor .... 5

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol .... 7**

Ein barn ni .... 8

**3. Sylwadau cyffredinol .... 10**

Ymgynghoriad ar gynigion y Bil .... 10

Rhyngweithio â Deddf Etholiadau 2022 .... 10

Hygyrchedd y gyfraith ar etholiadau datganoledig .... 13

Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth .... 14

Ein barn ni .... 16

**4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth .... 19**

Adrannau 1 a 2 (Bwrdd Rheoli Etholiadol y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) .... 19

Ein barn ni .... 20

Adran 3 (Dyletswydd i gofrestru etholwyr llywodraeth leol) .... 21

Ein barn ni .... 23

Adrannau 5 i 7 (Rheoliadau cynlluniau peilot: pwerau, gofynion a'r weithdrefn) .... 24

Ein barn ni .... 27

Adran 8 (Pŵer i newid y pŵer i wneud rheoliadau peilot) ... 28

Ein barn ni ... 29

Adrannau 19 ac 20 (Rheoliadau diwygio etholiadol) ... 30

Ein barn ni ... 35

Adran 26 (Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau lleol) ... 36

Ein barn ni ... 37

Adran 27 (Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig) ... 38

Ein barn ni ... 41

Adran 29 (Cynlluniau cymorth ariannol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig) ... 42

Ein barn ni ... 43

Adran 38 (Cod Ymarfer ar reolaethau sy'n ymwneud â thrydydd partïon) 44

Ein barn ni ... 45

Adrannau 41 a 51 (Y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau prif ardal; Adolygiadau cymunedol a'u gweithredu) ... 46

Ein barn ni ... 49

Adran 61 (Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ac yn gynghorydd cymuned) ... 50

Ein barn ni ... 51

Adran 67 (Rheoliadau: cyfyngiadau) ... 52

Ein barn ni ... 53

# 1. Cyflwyniad

Ar 2 Hydref 2023, cyflwynodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol) y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)[1] (y Bil), a'r Memorandwm Esboniadol[2] sy'n cyd-fynd ag ef.

**1.** Ar 26 Medi 2023, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a gosododd 26 Ionawr 2024 fel y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.[3]

**2.** Ar 12 Hydref 2023, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad o fwriad polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil (y datganiad o fwriad polisi).[4]

## Diben y Bil

**3.** Wrth ei gyflwyno, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai'r Bil yw'r cam nesaf yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i foderneiddio a diwygio etholiadau datganoledig,[5] ac y bydd yn "helpu i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan" yn yr etholiadau hynny.[6]

**4.** Yn gryno, mae'r Bil yn cynnig:

---

[1] Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, Hydref 2023
[2] Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Hydref 2023
[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Hydref 2023
[4] Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Hydref 2023
[5] Datganolodd *Deddf Cymru 2017* bwerau i'r Senedd a Gweinidogion Cymru dros etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Senedd. Mae'r etholiadau hynny'n cael eu disgrifio fel "etholiadau datganoledig" yn yr adroddiad hwn.
[6] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), 2 Hydref 2023

- rhoi swyddogaethau Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn Ffiniau) a fydd yn golygu bod y Comisiwn Ffiniau'n sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru i ysgwyddo cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o gyd-drefnu a gweinyddu etholiadau datganoledig, cydweithio â swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol yn ogystal â chynghori Gweinidogion Cymru;

- cyflwyno cofrestru etholiadol heb gais (cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig fel y'i gelwir weithiau), a'r gallu i dreialu'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer cyflawni hyn;

- diwygio ac ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau peilot etholiadol mewn perthynas â phob agwedd ar y broses etholiadol ar gyfer etholiadau datganoledig, a gwneud newidiadau parhaol i gyfraith etholiadol yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus ac argymhelliad y Comisiwn Etholiadol;

- gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pobl anabl i bleidleisio;

- dileu'r gofyniad yn *Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021* (Deddf 2021) i nodi geiriad a fformat penodol yr arolwg i ymgeiswyr llywodraeth leol mewn rheoliadau;

- creu gofyniad am lwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr a all gynnal gwybodaeth ymgeiswyr a phleidleiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd a phrif gynghorau;

- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol, ac i gynlluniau unigol gael eu creu a'u teilwra i gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig;

- gwneud newidiadau i reoleiddio cyllid ymgyrchu, a galluogi'r Comisiwn Etholiadol i gynnwys newidiadau o'r fath yn ei godau ymarfer;

- gwneud newidiadau i amseriadau a gofynion adolygiadau o drefniadau etholiadol a chymunedol;
- gwneud addasiadau i rôl, cylch gorchwyl a phwerau'r Comisiwn Ffiniau, a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a rhoi ei swyddogaethau i'r Comisiwn Ffiniau;
- darparu ar gyfer creu cynllun i alluogi gwneud taliadau i aelodau awdurdod lleol sy'n sefyll etholiad mewn etholiad cyngor cyffredin ond sy'n methu â chael eu hailethol;
- anghymhwyso cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd, dileu'r cyfnodau gras presennol[7] ar gyfer prif gynghorwyr a etholwyd i'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd a etholwyd yn Aelodau Seneddol, ac anghymhwyso'r sawl nad oes ganddynt hawl i sefyll fel ymgeisydd neu fod yn aelod o gyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon rhag sefyll a gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd neu aelodau o brif gyngor;
- diwygio *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* (Deddf 1983) i ddiweddaru a moderneiddio'r drosedd o ddylanwad gormodol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**5.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'u cymhwysedd, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**6.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, byddwn yn ystyried:

[7] Mae'r darpariaethau hyn wedi eu cynnwys yn adrannau 17B, 17D, 17E a 17F o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau dynol a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**7.** Cawsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar 20 Tachwedd 2023.[8] Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, ysgrifennom at y Cwnsler Cyffredinol ar 28 Tachwedd 2023 gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil.[9] Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol ar 19 Rhagfyr 2023.[10]

[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion
[9] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Tachwedd 2023
[10] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

## Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[11]

**8.** Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**9.** Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, datganodd y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[12]

**10.** Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol mewn tystiolaeth lafar ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[13] Dywedodd wrthym hefyd:

> *"We don't consider that there are any significant human rights issues. It does engage with article 10 [of the ECHR], which is to do with the issue of freedom of expression, freedom to communicate, but that is a very qualified right. It's one that has been tested before in the European Court of Human Rights, and so we're satisfied, though, that this is not only necessary, but it's also very much proportionate."*[14]

**11.** Ymhelaethodd y Cwnsler Cyffredinol ar ryngweithiad y Bil ag erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig adran 36 mewn cysylltiad â chyllid ymgyrchu trydydd parti:

---

[11] Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1
[12] Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), 2 Hydref 2023
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [7]
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [35]

> *"It replicates provisions that are in the UK Government's Elections Act 2022 with regard to reserved elections. … when the ECHR [the European Court of Human Rights] did look at this, they basically considered the issue of third-party expenditure and restrictions on it, or controls over it, to be something that was a normal part of the regulation and the conduct and the organisation of elections. So, I think we're confident that it is something that is very much proportionate in terms of the article 10 qualified rights."*[15]

**12.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym hefyd nad oedd o'r farn y gallai darpariaethau'r Bil o ran cofrestru pleidleiswyr heb gais ymwneud â hawliau dynol, gan nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gofrestru nac yn eu gorfodi i wneud hynny.[16]

## Ein barn ni

**13.** Rydym yn nodi barn y Cwnsler Cyffredinol a'r Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**14.** Rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch darpariaethau'r Bil yn ymwneud ag erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai gwybodaeth o'r fath fod wedi ei chynnwys ym Memorandwm Esboniadol y Bil, i ategu'r datganiad sy'n ofynnol dan Reol Sefydlog 26.6(i). Byddai crynodeb o ddarpariaethau Bil yn ymwneud â'r hawliau a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod hynny'n gymesur, yn ein barn ni, yn cynorthwyo Aelodau o'r Senedd wrth ystyried Bil. Gwnaethom sylwadau tebyg yn ein hadroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).[17]

[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [37]
[16] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [39]
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), Gorffennaf 2023, Casgliad 1

**Casgliad 1.** Rydym yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ar hawliau dynol ond rydym o'r farn y dylai Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau hawliau dynol Bil.

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Ymgynghoriad ar gynigion y Bil

**15.** Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol. Gweithredwyd rhai ohonynt gan *Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020* a Deddf 2021.[18]

**16.** Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad arall ar gynigion ar gyfer gweinyddu a diwygio etholiadol; mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ffurfio darpariaethau'r Bil.[19]

**17.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi na wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar Fil drafft "gan fod rhaglen ymgysylltu a chydweithio helaeth ac adeiladol gyda rhanddeiliaid, sy'n adeiladu ar ymgynghoriadau cynharach, yn cael ei chynnal, a bydd hon yn parhau drwy gydol oes y Bil."[20]

**18.** At hynny, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol i ni pam nad ymgynghorwyd ar Fil drafft:

> *"… the Bill itself, in terms of policy areas, is actually very, very narrow, isn't it? It's about automatic registration and the establishment of a statutory electoral mechanism. Much of the rest of it is to do quite technically with the process of administration of elections."*[21]

## Rhyngweithio â Deddf Etholiadau 2022

**19.** Yn ystod ei hynt drwy Senedd y Deyrnas Unedig cyn ei deddfu, roedd *Deddf Etholiadau 2022* (Deddf 2022) yn ddarostyngedig i broses cydsyniad

---

[18] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Diwygio etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru, Gorffennaf 2017
[19] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol, Hydref 2022
[20] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.12
[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [11]

deddfwriaethol y Senedd; yn benodol, ei darpariaethau mewn cysylltiad â bygwth pleidleiswyr ac argraffnodau digidol.[22] O fewn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Etholiadau fel yr oedd ar y pryd, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei bod yn bosibl bod gan rai o'i gynigion "rinweddau".[23] Dywedodd hefyd y:

> *"… gallai'r achos dros eu gweithredu ar gyfer etholiadau datganoledig, os ydynt yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru, gael ei gryfhau os byddai gwneud hynny'n sicrhau'r eglurder mwyaf posibl i bleidleiswyr, ymgeiswyr a gweinyddwyr. Fodd bynnag, yn hytrach na gwneud darpariaeth drwy'r Bil hwn, byddai'n well gennym ymgynghori â'n rhanddeiliaid a chyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd maes o law."*[24]

**20.** Wrth ei gyflwyno, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y Bil hwn:

> *"… yn adeiladu ar ddarpariaethau sy'n ymwneud ag argraffnodau digidol a gorchmynion anghymhwyso yn Neddf Etholiadau 2022 y rhoddodd y Senedd gydsyniad iddynt ac sydd bellach yn gymwys i etholiadau Cymreig. … Bydd yn egluro trosedd dylanwad amhriodol ac yn adlewyrchu rhai rheolau yn Neddf Etholiadau 2022 mewn perthynas â chyllid ymgyrchu."*[25]

**21.** Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol sut cafodd y Bil, a pholisi Llywodraeth Cymru, ei effeithio gan Ddeddf 2022. Dywedodd wrthym:

> *"We had quite extensive engagement through the interministerial group on elections when the UK Government's legislation was going through. As you know, the area where there was a lot of disagreement was obviously over the use of ID cards and some of the administrative processes that were there.*

---

[22] Senedd Cymru, Cydsyniad Ddeddfwriaethol, Y Bil Etholiadau
[23] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Etholiadau, 9 Medi 2021, paragraff 44
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Etholiadau, 9 Medi 2021, paragraff 44
[25] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), 2 Hydref 2023

*The position that we came to between the four nations— or, really, the three nations because of the Northern Ireland situation— was that we were going to introduce our own legislation in respect of non-reserved elections, et cetera, and Scotland were, obviously, doing the same thing, and then the UK Government elections, for the Westminster elections, would obviously go in their particular direction. So, we shared that information and we very respectfully disagreed with one another in terms of aspects to it. But what we did have were a number of common areas that we were engaged in, and they were things like undue influence, third party campaign finance and some issues around accessibility with disabled voters. And those have been incorporated into this legislation, so there will actually be a certain degree of consistency around that.*

*There were some areas— relatively minor areas, but nevertheless significant ones— where there were disagreements in terms of what the competence situation was. There were some concerns over that. So, the areas that that related to were intimidation and digital imprints, and those are ones where consent was then given by the Senedd."*[26]

**22.** Dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Cwnsler Cyffredinol wrthym hefyd fod budd o gael 'chwarae teg' drwy ymgorffori rhai o ddarpariaethau Deddf 2022 yn y Bil, fel y gall ymgyrchwyr a gweinyddwyr gael lefel o ragweladwyedd fel nad yw pobl yn syrthio rhwng bylchau disgwyliadau etholiad datganoledig a neilltuedig.[27]

[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [22–23]
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [28]

## Hygyrchedd y gyfraith ar etholiadau datganoledig

**23.** Yn ei hymgynghoriad yn 2022, nododd Llywodraeth Cymru ei "gweledigaeth hirdymor" ar gyfer etholiadau datganoledig, sy'n cynnwys cydgrynhoi'r gyfraith yn y maes hwn.[28]

**24.** O ran cydgrynhoi'r gyfraith, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

> *"I think this particular legislation does to some extent make things clearer in terms of Welsh elections, but in the longer term I think this area is ripe for a consolidation Bill".*[29]

**25.** Mae'r Bil yn cyfeirio at *Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013* fel Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Mae hefyd yn cyfeirio at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru fel Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Dyma'r enwau a roddir iddynt pe bai darpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), fel y'i cyflwynwyd,[30] yn cael eu gweithredu. Gan hynny, mae'r Bil wedi ei ddrafftio ar y dybiaeth y dylai'r darpariaethau hyn gael eu pasio gan y Senedd yn eu ffurf bresennol.

**26.** Ar 11 Rhagfyr 2023, rhannodd y Cwnsler Cyffredinol amserlen ar y cyd o welliannau y byddai'r Bil a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn eu gwneud i *Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*, Deddf 2006, Deddf 2013 a Deddf 2021, pe bai'r ddau Fil yn cael eu deddfu ar eu ffurf bresennol. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd y bydd yr amserlen yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen yn ystod taith y ddeddfwriaeth.[31]

---

[28] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio Etholiadol, Hydref 2022, Dogfen ymgynghori, Pennod 2

[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [150]

[30] Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), fel y'i cyflwynwyd, Rhan 3

[31] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 11 Rhagfyr 2023; Atodlen ar y cyd o ddiwygiadau: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

## Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

**27.** Mae'r Bil yn cynnwys 71 adran, wedi eu rhannu'n dair rhan, ac Atodlen o fân newidiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

**28.** Mae tablau 5.1 a 5.2 y Memorandwm Esboniadol yn rhoi crynodeb o'r pwerau dirprwyedig yn y Bil, sy'n cynnwys:

- 17 pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau (ond gweler isod);
- 4 pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion;
- 6 phŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd;
- 2 bŵer i'r Comisiwn Ffiniau gyhoeddi cyfarwyddiadau; ac
- 1 pŵer i'r Comisiwn Ffiniau roi canllawiau.

**29.** Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol mewn gohebiaeth ysgrifenedig bod cyfeiriad at bŵer deddfu pellach ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi ei hepgor o'r Memorandwm Esboniadol.[32] Mae'r Bil felly'n cynnwys 18 pŵer o'r fath.

**30.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud wrthym ei fod yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.[33] Ymhelaethodd fel a ganlyn:

> *"… it is a Bill that has quite a lot of delegated powers in respect of regulations; that, I think, is there because there are quite a number of areas that are really to do with pilots, the process, the organisation of elections, codes of conduct and things like that. Some of the powers in respect of regulations, of course, are more curtailed, particularly in some areas where, I suppose, it relates to the creation of offences and so on. So, I am satisfied,*

[32] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 9
[33] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [46]

*but I do think this is quite different to some of the policy legislation that will often come forward to various committees in the Senedd, because so much of it is quite technical and is quite to do with the organisation and the processes for the running of elections."*[34]

**31.** Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd wedi ystyried cynnwys rhagor o wybodaeth am natur cynlluniau peilot etholiadol ar wyneb y Bil. Dywedodd wrthym:

*"… there's a difficulty in trying to define what those pilots, for example, might be, particularly ahead of the 2026 election. … one of the consequences of the election is that there are then a number of reviews that take place in terms of the assessment, and, depending upon those reviews, there are things that will be learnt in terms of what pilots might be … What is important is establishing the principles within which, and the process by which, pilots can actually take place to ensure that there are certain protections there and the balance of those is right in terms of scrutiny and accountability of those, particularly where necessary and particularly where more fundamental changes might take place."*[35]

**32.** Dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Cwnsler Cyffredinol:

*"… ultimately, the purpose of this is to make the framework clearer for the future of how to go about pilots, how to engage the Senedd in agreeing to those in a way that's slightly clearer than existing legislation in relation to pilots."*[36]

[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [46]
[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [48]
[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [49]

## Ein barn ni

**33.** Er ein bod ni'n nodi barn y Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n helaeth ar fwriadau polisi'r Bil, credwn y dylid rhagdybio o blaid cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar fersiynau drafft o filiau i'w cyflwyno i'r Senedd. Credwn y byddai rhannu fersiynau drafft o filiau ar gyfer ymgynghori yn helpu i sicrhau bod deddfwriaeth yn debygol o fod yn addas i'r diben, ac y byddai'n caniatáu ystyriaeth lawn o ddarpariaethau drafft yn hytrach na'u pwrpas arfaethedig yn unig.

**34.** Gan hynny, rydym yn datgan yn barchus na ddylai'r cwestiwn a ddylid ymgynghori ar Fil drafft gynnwys asesiad goddrychol o ba mor 'gul' neu dechnegol y bernir yw Bil arfaethedig.

**Casgliad 2.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Bil cyn ei gyflwyno.

**35.** Rydym hefyd yn nodi datganiad y Cwnsler Cyffredinol y bydd rhaglen o ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid yn parhau 'gydol oes y Bil'. Credwn y byddai'n ddoeth i'r Cwnsler Cyffredinol ddatgan a yw'n rhagweld y bydd darpariaethau sylweddol sy'n cyflwyno polisi newydd yn debygol o ddod allan o'r rhaglen hon. Rydym yn gofyn i'r wybodaeth hon fodloni ein hunain, er mwyn llunio cyfraith dda,[37] nad yw unrhyw wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arni ar hyn o bryd yn debygol o arwain at welliannau yn cael eu cyflwyno ganddi yng nghyfnod 2 a/neu 3 y Bil.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol nodi a yw rhaglen bresennol Llywodraeth Cymru o ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r Bil yn debygol o arwain at Lywodraeth Cymru yn cyflwyno diwygiadau polisi sylweddol yng nghyfnod 2 a/neu 3.

**36.** Nodwn sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch integreiddio darpariaethau'r Bil â darpariaethau Deddf 2022. Yn ein hadroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Etholiadau fel yr oedd ar y pryd,

[37] Yn ei adroddiad, Deddfu yng Nghymru (Argymhelliad 10), argymhellodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno biliau "y gellir ystyried yn rhesymol yn rhai a ddatblygwyd yn llawn".

fe wnaethom groesawu barn y Cwnsler Cyffredinol y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru a chyflwyno ei deddfwriaeth etholiadol ei hun ar gyfer gwaith craffu yn y Senedd maes o law.[38]

**37.** Gan hynny, hoffem achub ar y cyfle i groesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru unwaith eto i geisio gwelliannau i'r Bil Etholiadau ar y pryd i ddileu etholiadau datganoledig o'i ddarpariaethau, ac i gyflwyno'r Bil hwn.

**38.** Rydym hefyd yn nodi datganiad y Cwnsler Cyffredinol bod rhai o ddarpariaethau Deddf 2022 sy'n berthnasol i Loegr yn unig wedi eu hymgorffori yn y Bil i sicrhau rhywfaint o gysondeb. Credwn fod hwn yn ddull y dylid ei ddilyn lle mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cysondeb â deddfwriaeth Senedd y Deyrnas Unedig yn briodol, yn hytrach nag argymell y dylai'r Senedd gydsynio i gynnwys darpariaeth ddatganoledig o fewn deddfwriaeth Senedd y Deyrnas Unedig.

**39.** Rydym yn nodi, ac yn croesawu, sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ar yr ymgysylltiad 'helaeth' â Llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r grŵp rhyngweinidogol ar etholiadau yn ystod y gwaith o ddatblygu a phasio Deddf 2022, er gwaethaf y meysydd anghytundeb y daethpwyd ar eu traws.

**40.** Mae hynt disgwyliedig y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) mewn olyniaeth gyflym wedi gwneud y dasg o graffu yn fwy cymhleth, ac felly rydym yn ddiolchgar i'r Cwnsler Cyffredinol am rannu amserlen ar y cyd o welliannau a wneir i ddeddfwriaeth bresennol gan y ddau Fil.

**41.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i gydgrynhoi cyfraith etholiadol Cymru, oherwydd ers ei datganoli mae wedi bod – ac yn parhau i fod – yn destun diwygio helaeth. Credwn fod hygyrchedd cyfraith etholiadol i ddemocratiaeth weithredol yn hanfodol.

**42.** Er ein bod ni'n croesawu sylwadau cadarnhaol y Cwnsler Cyffredinol am gydgrynhoi cyfraith etholiadol dros y tymor hwy yn ein hadroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau),[39] nodwn, fod y Comisiwn Etholiadol wedi galw ar

[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Etholiadau, Rhagfyr 2021, paragraff 44
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Ionawr 2024, paragraff 50

Lywodraeth Cymru, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â'r Bil hwn, i ystyried cydgrynhoi cyfraith etholiadol ddatganoledig cyn etholiad 2030.[40] Credwn gan hynny y byddai'n ddefnyddiol cael arwydd clir o'r flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i'r ymarfer hwn o fewn rhaglen gydgrynhoi gyffredinol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi syniad o ba bryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil cydgrynhoi mewn perthynas â chyfraith etholiadol Cymru.

**43.** Rydym yn nodi bod y Cwnsler Cyffredinol yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn nodi datganiad y Cwnsler Cyffredinol bod rhai o'r pwerau deddfu yn y Bil yn cael eu cwtogi, a'i bod yn anodd diffinio union natur cynlluniau peilot etholiadol er mwyn darparu rhagor o wybodaeth ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuon ynghylch rhai o'r pwerau deddfu hyn. Fe'u hystyrir yn y bennod nesaf.

[40] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), EEB 11 – Y Comisiwn Etholiadol, tudalen 2

# 4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

## Adrannau 1 a 2 (Bwrdd Rheoli Etholiadol y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)

**44.** Mae adran 1 o'r Bil yn mewnosod adran 2A newydd i Ddeddf 2013. Mae'r mewnosodiad yn cynnwys adrannau 20A i 20I newydd, sy'n rhoi swyddogaeth gyffredinol i'r Comisiwn Ffiniau gydlynu gweinyddiaeth etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru, ynghyd â refferenda datganoledig yng Nghymru.

**45.** Mae adran 20E o'r Rhan newydd i'w mewnosod gan y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, a fydd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaeth gweinyddiaeth etholiadol y Comisiwn Ffiniau yn unig.

**46.** Mae adran 20E(3)(c) o'r Rhan newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i roi swyddogaethau ychwanegol i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. Dywedir yn y datganiad o fwriad polisi bod y pŵer hwn ar gyfer gwneud rheoliadau yn angenrheidiol:

> *"... oherwydd efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru, yn y dyfodol, roi swyddogaethau pellach sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadol i'r Bwrdd Rheoli Etholiadau. Enghraifft o sefyllfa lle y gallai darpariaethau a bennir mewn rheoliadau ychwanegu at swyddogaethau'r Comisiwn yw y rhagwelir y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn rhoi'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ar waith. Bydd adran 27(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Gallai rheoliadau o'r fath roi swyddogaethau i'r Comisiwn (i'w harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol) mewn perthynas â'r platfform hwnnw."*[41]

[41] Datganiad o fwriad polisi, tudalen 5

**47.** Nodir yn y datganiad o fwriad polisi bod y pŵer hefyd yn darparu ar gyfer "unrhyw angen yn y dyfodol" i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau eraill i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.[42]

**48.** Mae adran 2 y Bil yn cyflwyno mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2013 sy'n ymwneud â Phennod 1 y Bil, a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil. Mae paragraff 1(4)(a) o Atodlen 1 yn disodli adran 14(1) o Ddeddf 2013 i atal Gweinidogion Cymru rhag rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiwn Ffiniau mewn perthynas ag arfer ei swyddogaeth gweinyddu etholiadol neu ei swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau ffiniau etholaethau'r Senedd.

**49.** Mae'r datganiad o fwriad polisi yn nodi mai pwrpas y diwygiadau hyn yw "sicrhau annibyniaeth y Comisiwn mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol".[43] Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol hynny mewn tystiolaeth lafar.[44]

## Ein barn ni

**50.** Rydym yn nodi barn y Cwnsler Cyffredinol am adrannau 1 a 2 o'r Bil.

**51.** Rydym yn nodi'r cyfiawnhad a ddarperir ar gyfer creu pŵer deddfu i alluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau eraill ar y Bwrdd Rheoli Etholiadol, gan y gallai'r angen hwn godi yn y dyfodol. Rydym hefyd yn nodi'r enghraifft a roddwyd, sef y gallai swyddogaeth o'r fath fod mewn perthynas â llwyfan gwybodaeth etholiadau Cymru (y darperir ar ei chyfer gan adran 27 o'r Bil, y byddwn yn ei hystyried yn ddiweddarach yn y Bennod hon).

**52.** Fodd bynnag, credwn y dylid darparu rhagor o wybodaeth ar wyneb y Bil am y mathau o swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru eu rhoi i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, er mwyn rhoi sicrwydd a chyfyngiadau ar gwmpas ei swyddogaethau, a sicrhau ei annibyniaeth. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r pwyslais a roddir gan randdeiliaid, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor

[42] Datganiad o fwriad polisi, tudalen 6
[43] Datganiad o fwriad polisi, tudalen 6
[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [84]

Llywodraeth Leol a Thai, ar yr angen i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn annibynnol.[45]

**53.** Credwn hefyd y byddai cynnwys rhagor o wybodaeth ar wyneb y Bil fel hyn hefyd yn cael yr effaith o gyfyngu ar ehangder y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a fyddai yn ein barn ni yn briodol.

**54.** Yn ein hadroddiad diweddar ar y Bil Seilwaith (Cymru) argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Bil hwnnw a rhoi rhagor o wybodaeth ar ei wyneb mewn perthynas â'r swyddogaethau y bydd yn eu rhoi i unigolion,[46] ac felly rydym yn gwneud argymhelliad tebyg mewn perthynas â'r Bil hwn.

**Argymhelliad 3.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu rhagor o fanylion am y mathau o swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru eu rhoi i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gan ddefnyddio'r pŵer o fewn adran 1 o'r Bil.

**55.** Nodwn mai diben y diwygiadau i Ddeddf 2013 o fewn adran 2 y Bil yw sicrhau annibyniaeth y Comisiwn Ffiniau, a'u bod yn fodlon.

## Adran 3 (Dyletswydd i gofrestru etholwyr llywodraeth leol)

**56.** Mae adran 3(1) o'r Bil yn hepgor adran 18 o Ddeddf 2021, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais nad yw wedi dod i rym. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol bod adran 18 o Ddeddf 2021 wedi ei hadolygu "gyda'r nod o sicrhau dull cyson ledled Cymru a sicrhau diogelwch etholwyr a allai fod yn agored i niwed."[47]

**57.** Mae adran 3(2) yn mewnosod adran newydd (adran 9ZA) i Ddeddf 1983 i'w gwneud yn ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol yng Nghymru ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru pan fo'r swyddog cofrestru etholiadol wedi ei fodloni bod gan yr unigolyn hawl i

[45] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Ymgynghoriad: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), EEB 02 – Yr Athro Alistair Clark; EEB 04 – Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru; EEB 11 – Y Comisiwn Etholiadol
[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Seilwaith (Cymru), Tachwedd 2023, Argymhelliad 3
[47] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.31

gofrestru. Gan hynny, ni fyddai'n ofynnol i etholwr wneud cais i gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig.

**58.** Mae'r adran newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf 1983 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob swyddog cofrestru etholiadol roi gwybod i'r sawl y mae'n bwriadu eu cofrestru i bleidleisio, ac mae'n rhoi cyfnod o 45 diwrnod i'r unigolyn hwnnw ymateb gydag unrhyw bryder neu wrthwynebiad. Os na fydd pryderon neu wrthwynebiadau o'r fath yn cael eu codi, bydd yr unigolyn yn cael ei ychwanegu at y gofrestr. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn gwrthwynebu cael ei ychwanegu, neu os yw'n dymuno gwneud cais i gofrestru'n ddienw, bydd yn ofynnol i'r swyddog cofrestru etholiadol atal y broses gofrestru awtomatig a dilyn y broses bresennol, a fydd yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer etholiadau heb eu datganoli, y darperir ar eu cyfer yn adran 9E o Ddeddf 1983.

**59.** Dywedir yn y Memorandwm Esboniadol, gan y bydd y broses gofrestru yn awtomatig, "ac er mwyn ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc ac etholwyr sy'n agored i niwed", y bydd Llywodraeth Cymru yn dileu'r gofrestr etholiadol agored[48] yng Nghymru ar gyfer etholiadau datganoledig.[49] Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cadarnhau bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan adran 53 o Ddeddf 1983 i ddileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.[50]

**60.** Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio ymhellach pam mae'r Bil yn bwriadu diwygio Deddf 2021 fel hyn. Dywedodd wrthym fod adran 18 o Ddeddf 2021:

> *"… was a very narrow piece of legislation. It gave a power to do something, but it didn't have any detail in terms of how that might be operated. What this Bill actually does is just put more flesh on the bones of that. It actually gives a lot more detail in*

[48] Mae'r gofrestr agored, a ddisgrifir hefyd fel y gofrestr wedi ei golygu, yn cynnwys yr un wybodaeth i raddau helaeth â'r gofrestr lawn a ddefnyddir gan swyddogion cofrestru; fodd bynnag, nid yw'n cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau na refferenda. Gellir ei gwerthu i unrhyw unigolyn, sefydliad neu gwmni at amrywiaeth eang o ddibenion.
[49] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.33
[50] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023.

*terms of, for example, how auto-registration would take place. So, the section 18 was basically just giving a power that, yes, you can auto-register, but it doesn't have the detail that we have here in terms of automatic registration, the 45-days notice. What I think this Bill does is give much greater clarity and also further information about the safeguarding aspects of the Bill as well, none of which were in the 2021 legislation."*[51]

**61.** Mae'r Bil, yn rhinwedd adran 5(4), yn caniatáu i gynlluniau peilot gael eu rhedeg mewn cysylltiad â'r darpariaethau yn adran 3. Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd wedi ystyried gwneud y gallu i ddwyn adran 3 i rym yn amodol (er enghraifft, heb fod yn gynharach na phryd y daw o leiaf un cynllun peilot perthnasol i ben), ac os felly, pam nad oedd wedi defnyddio'r dull hwn. Yn ei ymateb, dywedodd:

*"Er fy mod yn credu y bydd treialu cofrestriad awtomatig yn arwain at y system orau bosibl ar gyfer yr etholwr, nid wyf yn credu y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n atal cychwyn adran 3 yn benodol cyn i'r cynlluniau peilot cael eu cwblhau. Rwyf wedi ymrwymo i dreialu cofrestru awtomatig cyn cychwyn adran 3 a byddaf yn sicrhau bod y cynlluniau peilot hyn yn bwrw ymlaen â gwerthusiad llawn a phriodol cyn cyflwyno'r system. Felly, byddai cyfyngiad o'r fath nid yn unig yn ddiangen o ystyried fy ymrwymiad, ond byddai'n canolbwyntio ar gwblhau proses yn hytrach na gwerthusiad trylwyr a fydd yn llywio gweithrediad cofrestru awtomatig."*[52]

## Ein barn ni

**62.** Nodwn y rhesymau a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol am gynnwys y darpariaethau yn adran 3 y Bil, ac rydym yn croesawu cynnwys rhagor o fanylion i

[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [87]
[52] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 3

ddisodli'r mewnosod a wnaed yn Neddf 1983 gan Ddeddf 2021, yn rhinwedd ychwanegu adran newydd 9ZA gan y Bil hwn.

**63.** Nodwn ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i ddileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i'r Bil, er mwyn ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc ac agored i niwed.

**64.** Rydym hefyd yn cydnabod ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i dreialu cofrestru etholiadol heb gais cyn dod ag adran 3 o'r Bil i rym. Fodd bynnag, credwn y dylid darparu rhagor o sicrwydd ar wyneb y Bil i sicrhau bod cynllun peilot llwyddiannus wedi ei gwblhau yn gyntaf, er mwyn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth a'r mesurau diogelu cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

**65.** Nodwn farn y Cwnsler Cyffredinol y byddai dull o'r fath yn ddiangen ac yn "canolbwyntio ar gwblhau proses yn hytrach na gwerthusiad trylwyr". Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pam byddai cynnwys y cyfyngiad hwn yn atal Llywodraeth Cymru rhag cwblhau gwerthusiad trylwyr o gynllun peilot cyn dod ag adran 3 i rym.

**Argymhelliad 4.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu mai dim ond ar ôl cwblhau cynllun peilot o dan adran 5(4) o'r Bil y caniateir dod ag adran 3 i rym.

## Adrannau 5 i 7 (Rheoliadau cynlluniau peilot: pwerau, gofynion a'r weithdrefn)

**66.** Mae adran 5 y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gynlluniau peilot etholiadol (rheoliadau cynlluniau peilot) ddigwydd mewn cysylltiad â chyfres o faterion, gan gynnwys cofrestru etholwyr yng Nghymru ar gyfer etholiadau Cymru, amseru, lleoliad a dulliau pleidleisio, a chyfrif pleidleisiau.

**67.** Mae Adran 6 y Bil yn nodi'r gofynion mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dilyn wrth wneud rheoliadau peilot o dan adran 5. Mae is-adran (2) yn rhoi gwaharddiad ar ddefnydd Gweinidogion Cymru o'r pŵer hwn; fodd bynnag, nid yw'r gwaharddiadau hyn yn berthnasol i unrhyw reoliad cynlluniau peilot a wnaed yn y 12 mis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol lle mae'r rheoliadau at ddiben profi'r trefniadau sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais (y darperir ar ei gyfer gan adran 3 o'r Bil).

**68.** Mae adran 6(2)(a) yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau cynlluniau peilot sy'n gymwys i brif gyngor oni bai bod y prif gyngor hwnnw wedi cydsynio i'r cynllun peilot. Fodd bynnag, mae adran 6(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o'r fath heb gydsyniad prif gyngor ar yr amod eu bod wedi rhoi sylw i argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol ynghylch a ddylid gwneud y rheoliadau heb gydsyniad.

**69.** Dywedir yn y Memorandwm Esboniadol bod y ddarpariaeth o fewn adran 6(2)(a):

> *"… yn golygu y gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal peilotau, gan helpu i sicrhau y gellid peilota mathau addas o arloesiadau mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Gallai hyn sicrhau tystiolaeth werthfawr er mwyn llywio diwygio etholiadol yn y dyfodol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a nodi'r rhesymau dros orfodi'r peilot cyn bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth angenrheidiol."*[53]

**70.** Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol amlinellu'r amgylchiadau mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio. Dywedodd wrthym:

> *"I think it's something that we wouldn't envisage happening regularly. It might be, for example, if they wanted to have a pilot that was an all-Wales pilot. What you wouldn't want is for it not to become an all-Wales pilot because one local authority didn't agree. Or it might be, if you look now at the Senedd constituencies, where you may have several local authorities within that, it's just basically to ensure that that can happen on an all-constituency basis. So, it's a power that I would expect probably never to be used, or very rarely to be used— 'in extremis', I think, would be the legal phrase. But it's there just in*

[53] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.51

*case it became necessary to do so, to facilitate being able to actually hold these comprehensive pilots."*[54]

**71.** Mae adran 7 o'r Bil yn darparu y gall rheoliadau cynlluniau peilot gael eu gwneud drwy'r weithdrefn negyddol, ac eithrio pan fyddant yn bodloni'r meini prawf canlynol, lle mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol:

- rheoliadau sy'n berthnasol i ardal prif gyngor (neu unrhyw ran ohono) ac nad yw'r Cyngor wedi rhoi ei ganiatâd;
- rheoliadau ar gyfer cynllun peilot etholiadol yng Nghymru sy'n dod o fewn adran 5(4) o'r Bil; neu
- rheoliadau sy'n creu, neu'n ehangu cwmpas, trosedd.

**72.** Gofynnom a yw'r adran hon, yn enwedig adran 7(5), yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sylfaenol drwy reoliadau – gan felly ddarparu pŵer Harri'r Wythfed[55] i Weinidogion Cymru. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol mai dyma'r achos,[56] ac ymhelaethodd swyddog a oedd yn bresennol gydag ef ymhellach:

*"... you could amend primary legislation using these pilot powers and it would be subject to the negative procedure, if it didn't otherwise fall within any of those categories in subsection 4. But I think the point the CG [the Counsel General] makes about the broader scrutiny and accountability process that would happen prior to those regulations being made is an important one, because it would involve the EMB and the Electoral Commission, who would be considering the proposals."*[57]

[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [96]
[55] Mae pŵer Harri'r Wythfed yn bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth.
[56] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [101]
[57] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [102]

**73.** Fe wnaethom holi'r Cwnsler Cyffredinol am briodoldeb cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r pŵer o fewn adran 7(5). Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"If you look at categories (a), (b) and (c) of … [section 7(4)], both with auto-registration for a council that hasn't given consent, or for creating or widening the scope of a criminal offence … there are certain criteria in which it shifts from being negative to a very specific affirmative process, and, again, in terms of the laying of the statutory instrument and any specific recommendations that would come from the commission itself to enable that to happen."*[58]

## Ein barn ni

**74.** Nodwn dystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas ag adrannau 5 i 7 o'r Bil.

**75.** Rydym hefyd yn nodi'r cyfiawnhad a ddarperir gan y Cwnsler Cyffredinol dros y ddarpariaeth o fewn adran 6(2)(b) o'r Bil sy'n caniatáu cynnal cynllun peilot heb gydsyniad prif gyngor. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni y byddai'r gofyniad yn y Bil i Weinidogion Cymru "ystyried" yr argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol o ran a ddylid gwneud rheoliadau cynlluniau peilot heb ganiatâd yn caniatáu iddynt wrthod yr argymhellion hynny, ac i fynd ati wedyn i wneud rheoliadau cynlluniau peilot heb ganiatâd.

**76.** Yng ngoleuni hyn, ac yng ngoleuni'r pryderon a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil,[59] rydym o'r farn y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru egluro i'r Senedd benderfyniad i wneud rheoliadau cynlluniau peilot heb gydsyniad prif gyngor.

**Argymhelliad 5.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, ar adeg gosod rheoliadau cynlluniau peilot yn y Senedd sydd i'w gwneud

---

[58] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [104]

[59] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), EEB 04 – Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

heb gydsyniad prif gyngor, hefyd osod datganiad i esbonio'r penderfyniad i fwrw ymlaen heb gael y caniatâd hwnnw.

**77.** Nodwn y bydd rheoliadau cynlluniau peilot yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os ydynt yn bodloni'r meini prawf a osodwyd gan adran 7(4). Rydym hefyd yn cydnabod y bydd rheoliadau cynlluniau peilot yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag, credwn fod gan y Senedd rôl bwysig i'w chwarae wrth graffu ar reoliadau o'r fath. Gan hynny, yn achos rheoliadau sy'n gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, credwn ei bod yn hanfodol i'r Senedd gael rôl well, ac, heb ystyried meini prawf penodol, y dylai rheoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 6.** Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a wneir o dan adran 5 sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Adran 8 (Pŵer i newid y pŵer i wneud rheoliadau peilot)

**78.** Mae adran 8 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ychwanegu materion etholiadol pellach at y rhestr yn adran 5(3) y gellir cynnal cynlluniau peilot mewn perthynas â nhw, neu ddileu neu ddiwygio materion a ychwanegwyd yn flaenorol gan ddefnyddio'r pŵer hwn.

**79.** Nodir yn y datganiad o fwriad polisi y bydd y pŵer hwn yn “rhoi hyblygrwydd” i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn nodi na ellir defnyddio'r pŵer i ddiwygio'r rhestr er mwyn galluogi cynlluniau peilot i gael eu cynnal mewn cysylltiad â'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau i'r Senedd, neu i brif gyngor neu gyngor cymuned.[60]

**80.** Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau a ellid defnyddio'r pŵer hwn i ehangu'r ddirprwyaeth bresennol o bŵer o'r Senedd i Lywodraeth Cymru, ac os felly, i gyfiawnhau'r dull hwn. Dywedodd wrthym fod hyn yn ‘rhywbeth yr edrychwyd arno’n eithaf agos’ a bod y pŵer wedi ei ddrafftio fel hyn i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr yn adran 5(3) i wneud peilotiaid

[60] Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 9

etholiadol yn fwy effeithiol.[61] Ymhelaethodd swyddog a oedd yn bresennol gydag ef:

> *"Section 5(3) has sought to define some of those areas where piloting might happen in the future. The purpose of that power in section 8(1) is to add further matters to that list in the future, if there was the policy intention. If a new idea came out to pilot, then there would be the option to add to that list in the future. But, of course, those regulations would be subject to the affirmative procedure."*[62]

**81.** Cadarnhaodd y swyddog hefyd na ellid defnyddio'r pŵer i ehangu troseddau troseddol.[63]

**82.** Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol roi eglurder pellach ar y math o amgylchiadau y gellir defnyddio'r pŵer hwn ynddynt. Dywedodd wrthym:

> *"Pwrpas y pŵer hwn yw caniatáu i faterion nad ydynt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru neu'r Senedd gael eu treialu o bosibl yn y dyfodol, yn amodol ar y prosesau craffu a gwerthuso a nodir yn y Bil. Dim ond o dan adran 8(1) y caniateir i reoliadau gael eu gwneud yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i newid y system bleidleisio ar gyfer dychwelyd Aelodau Senedd, aelodau prif gyngor, neu aelodau cyngor cymuned."*[64]

### Ein barn ni

**83.** Nodwn mai diben datganedig adran 8 o'r Bil yw darparu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru.

[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [106]
[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [108]
[63] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [110]
[64] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 4

**84.** Er ein bod ni'n cydnabod bod y Cwnsler Cyffredinol wedi rhoi ystyriaeth i ddrafftio'r pŵer yn yr adran hon, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol yn gyfansoddiadol i Weinidogion Cymru ddal pŵer a all ddiwygio'r pwerau a ddirprwyir iddynt gan y Senedd. Fe wnaethom godi pryderon tebyg mewn perthynas â darpariaethau i'r un effaith o fewn y Bil Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu).[65] Tynnodd ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 sylw hefyd at ein pryderon am y mater hwn. Dywedom y byddem yn parhau i fonitro Biliau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a phe bai pwerau tebyg yn cael eu cynnwys ynddynt, y byddem yn tynnu sylw'r Senedd at y mater hwn.[66]

**85.** Gan hynny, fel mater o egwyddor, credwn y dylid cyflwyno newidiadau i'r ddirprwyaeth o bwerau gan y Senedd i Weinidogion Cymru o fewn deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer gwaith craffu llawn, a'u cymeradwyo gan y Senedd. Os bydd Llywodraeth Cymru neu'r Senedd yn nodi materion newydd i'w treialu yn y dyfodol, credwn ei bod yn briodol yn gyfansoddiadol y dylid eu cyflwyno o fewn Bil a gyflwynir i'r Senedd.

**Argymhelliad 7.** Dylid diwygio'r Bil i hepgor adran 8.

## Adrannau 19 ac 20 (Rheoliadau diwygio etholiadol)

**86.** Mae adran 19 y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno newidiadau parhaol, yn debyg i'r rhai sy'n cael eu treialu mewn cynllun peilot ar ffurf rheoliadau diwygio etholiadol.

**87.** Mae adran 20 y Bil yn nodi gweithdrefn y Senedd y mae'n rhaid ei dilyn wrth wneud rheoliadau diwygio etholiadol. Mae'n darparu bod camau craffu ychwanegol a gwell yn cael eu cymryd, sy'n cynnwys gofyniad bod un o bwyllgorau'r Senedd yn ystyried y rheoliadau a'u goblygiadau. Mae'r adran hefyd yn rhoi cyfnod hirach i'r Senedd ystyried y rheoliadau a'u goblygiadau. Yn ogystal, pan osodir y rheoliadau, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru hefyd osod copi o werthusiad y Comisiwn Etholiadol o'r rheoliadau peilot cysylltiedig.

[65] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil Ddeddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i addasu), Ebrill 2022, paragraffau 245–246; Argymhelliad 11
[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22, Hydref 2022, paragraff 63

**88.** O ran adran 20, nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Lle mae rheoliadau diwygio;*
>
> *i. yn addasu deddfwriaeth sylfaenol;*
>
> *ii. yn creu neu'n ehangu cwmpas trosedd; neu*
>
> *iii. yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu,*
>
> *byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (adran 20(3) a (4)), ond gall y Senedd neu bwyllgor o'r Senedd sy'n adrodd ar y rheoliadau ddatrys, o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r rheoliadau drafft gael eu gosod, y dylai gweithdrefn uwchgadarnhaol fod yn gymwys i reoliadau o'r fath (adran 20(13)). Mae'r weithdrefn uwchgadarnhaol hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau; unrhyw benderfyniadau gan y Senedd; ac unrhyw argymhellion gan bwyllgor o'r Senedd sy'n gyfrifol am adrodd ar y rheoliadau drafft, a wneir o fewn 60 diwrnod i osod y rheoliadau. Dim ond os yw'r Senedd yn eu cymeradwyo ar ôl i'r cyfnod 60 diwrnod ddod i ben y caiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau (heb newidiadau perthnasol). Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl y cyfnod o 60 diwrnod, yn dymuno bwrw ymlaen â'r rheoliadau drafft, ond gyda newidiadau perthnasol, rhaid gosod y rheoliadau drafft diwygiedig gerbron y Senedd ynghyd â datganiad yn crynhoi'r newidiadau, i'w cymeradwyo gan y Senedd.*
>
> *Ar gyfer pob offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau diwygio, bydd gweithdrefn uwchnegyddol yn berthnasol (adran 20(5)). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, pan fyddant yn ystyried bod y weithdrefn negyddol yn briodol, wneud datganiad i'r perwyl hwnnw a gosod drafft o'r rheoliadau gerbron y Senedd ynghyd â memorandwm sy'n nodi eu datganiad a'r rhesymau dros eu barn. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond symud ymlaen i wneud y rheoliadau ar ffurf y weithdrefn negyddol os yw Pwyllgor perthnasol yn y Senedd yn*

*gwneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol, neu os oes 14 diwrnod yn mynd heibio ers gosod y rheoliadau drafft ac os na dderbynnir argymhelliad gan y pwyllgor.*

*Ystyrir bod y ddwy weithdrefn yn briodol gan eu bod yn darparu ar gyfer craffu ychwanegol gan y Senedd sy'n adlewyrchu natur y rheoliadau diwygio."*[67]

**89.** Mae adran 19(5) yn darparu y gall rheoliadau diwygio etholiadol greu, dileu neu addasu troseddau. Fodd bynnag, mae adran 19(6) yn darparu bod yn rhaid i reoliadau o'r fath beidio â chreu trosedd y caniateir ei chosbi (neu addasu trosedd fel y daw'n drosedd y caniateir ei chosbi):

- ar euogfarn ar dditiad, drwy garcharu am gyfnod sy'n hwy nag un flwyddyn;
- ar euogfarn ddiannod, drwy garcharu am gyfnod sy'n hwy na'r terfyn cymwys ar gyfer trosedd ddiannod neu drosedd neillffordd (yn ôl y digwydd) o dan adran 224(1A) o'r Cod Dedfrydu (fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd).

**90.** Mae adran 19(7) yn nodi y "caiff rheoliadau diwygio etholiadol roi, dileu neu addasu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth". Pan ofynnwyd iddo gyfiawnhau'r ddarpariaeth hon, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"The power there is limited to the powers of the pilot and its scope, but it would be subject to the superaffirmative process, and I think that is set out in section 20 of the legislation. There's a whole series of conditions that are set there as to how that might actually happen. So, I think that protection is built in to the legislation itself."*[68]

**91.** Wrth gyfeirio at y pŵer hwn, dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Cwnsler Cyffredinol:

[67] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 45–49, colofn 6
[68] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [112]

> *"… this kind of power and the scope of the power reflects the state of electoral law. There's a significant volume of electoral law that is in secondary legislation already. Just to give an example, we spoke earlier about section 53 of the Representation of the People Act 1983— that's the power that's used to make provision about how registration should be operated. Accompanying that power is a very prescriptive Schedule, setting out how the power can be operated. It's foreseeable that there could be a pilot and, as a result of that pilot, we need to make amendments to that power. That's the reason why it's there, and it just reflects the state of electoral law."*[69]

**92.** Gofynnom hefyd i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam dylid cyflwyno newidiadau o'r fath i gyfraith etholiadol drwy reoliadau yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Dywedodd wrthym:

> *"… it's the flexibility of change that needs to take place from time to time. What is important is not so much the ability to make the changes but what the checks and balances are on the exercise of those particular powers. As I've said already, those are very well specified within section 20 of the Bill. It not only provides condition but also sets the time period and also a duty on Welsh Government Ministers to have regard to, for example, the scrutiny process and the recommendations that are made."*[70]

**93.** Mae adran 20(18) yn darparu bod rheoliadau diwygio etholiadol yn cael eu gwneud gan ddilyn ffurf rheoliadau drafft neu reoliadau drafft diwygiedig os nad ydynt yn cynnwys "newidiadau o sylwedd" i'w darpariaethau. Gofynasom i'r Cwnsler Cyffredinol egluro ystyr arfaethedig yr ymadrodd hwn. Dywedodd wrthym:

---

[69] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [113]
[70] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [116]

> *"Material changes are ultimately going to be determined by the Welsh Ministers. I suppose, turning the question round, the question is what are immaterial changes. Material changes would be things that change the substance of a recommendation. An immaterial change would be whether there's a comma there, the word 'the' or 'and' or something like that— something that doesn't actually change the substance of that. That's something that happens quite commonly where we have consequential changes or inconsequential changes. Ultimately, were there any dispute on that, the ultimate mechanism for determining that would be, I suppose, interpretation by judicial review."*[71]

**94.** Gofynnom hefyd i'r Cwnsler Cyffredinol gyfiawnhau absenoldeb gofyniad o fewn adran 20 o'r Bil i Weinidogion Cymru egluro pam na ellir derbyn argymhelliad gan un o bwyllgorau'r Senedd. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"I don't think it's normal to have this within the legislation. What happens when a committee makes recommendations is there is a Government response to that. It's a response on which Ministers are scrutinised both in committee and on the floor of the Senedd itself, and practice has always been that a response is given to either accept recommendations or to say why certain recommendations might not be accepted, and what the reasons for that are. So, I don't think it was considered necessary to do that, because that process is not only well established, but because there are other mechanisms to follow that through in terms of scrutiny, rather than to put that on the face of the legislation."*[72]

[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [129]
[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [127]

## Ein barn ni

**95.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas ag adrannau 19 a 20 o'r Bil.

**96.** Byddem fel arfer o'r farn y dylai newidiadau parhaol i gyfraith etholiadol gael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, rydym o'r farn bod y fframwaith a ddarperir gan y Bil – sef bod yn rhaid i gynnig mewn is-ddeddfwriaeth yn gyntaf fod wedi bod yn destun ymarfer peilot y barnwyd ei fod yn llwyddiannus gan y Comisiwn Etholiadol – yn gyffredinol yn darparu ar gyfer craffu digonol gan y Senedd ar is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei llywio gan gasglu tystiolaeth ac sydd ei hun wedi ei chymeradwyo gan gorff annibynnol sydd â'r dasg o sicrhau cywirdeb y broses ddemocrataidd yn y Deyrnas Unedig.

**97.** Rydym hefyd yn cydnabod bod gofynion adran 20 yn darparu ar gyfer uwchweithdrefnau craffu gan y Senedd ar gyfer rheoliadau diwygio etholiadol.

**98.** Fodd bynnag, credwn y byddai'n briodol i rai cyfyngiadau ychwanegol gael eu gosod ar arfer pwerau Gweinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau diwygio etholiadol.

**99.** Yn gyntaf, er ein bod ni'n cydnabod bod adran 19(6) yn darparu cyfyngiadau ar y mathau o droseddau y gellir eu creu neu eu haddasu gan reoliadau diwygio etholiadol, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i reoliadau o'r fath greu neu addasu unrhyw drosedd yn barhaol; deddfwriaeth sylfaenol ddylai fod y modd priodol i gyflwyno newidiadau o'r fath.

**Argymhelliad 8.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu na chaiff rheoliadau diwygio etholiadol a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 19 greu, dileu nac addasu unrhyw drosedd.

**100.** Yn ail, fel rydym wedi ei nodi mewn perthynas ag adran 8 o'r Bil, credwn y dylai unrhyw newid i'r broses o ddirprwyo pwerau gan y Senedd i Weinidogion Cymru gael ei gyflwyno o fewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn i'r Senedd graffu arno a'i gymeradwyo. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig lle mae newidiadau o'r fath i'w gwneud yn barhaol.

**Argymhelliad 9.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu na chaiff rheoliadau diwygio etholiadol roi, dileu nac addasu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.

**101.** Yn olaf, er ein bod ni'n nodi barn y Cwnsler Cyffredinol nad yw'n arferol i ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru egluro pam na chaiff argymhelliad gan un o bwyllgorau'r Senedd ei dderbyn, credwn, yn achos rheoliadau diwygio etholiadol, y dylid rhoi gradd uwch o atebolrwydd ar Weinidogion Cymru i gyfiawnhau unrhyw benderfyniad sy'n mynd yn groes i argymhelliad pwyllgor.

**102.** Credwn felly y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad i egluro pam nad yw argymhelliad un o bwyllgorau'r Senedd mewn perthynas â rheoliadau diwygio etholiadol drafft yn cael ei dderbyn.

**Argymhelliad 10.** Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, pan fyddant yn penderfynu peidio â derbyn yn llawn neu'n rhannol argymhelliad un o bwyllgorau'r Senedd mewn perthynas â rheoliadau diwygio etholiadol drafft, osod datganiad i egluro eu penderfyniad.

## Adran 26 (Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau lleol)

**103.** Mae adran 26 o'r Bil yn diwygio adran 1 o *Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* (Mesur 2011), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredin i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Mae adran 1(3) o Fesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ffurf yr arolwg a'r cwestiynau gael eu nodi mewn rheoliadau. Mae'r Bil yn dileu'r gofyniad hwnnw, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi ffurf yr arolwg a'r cwestiynau mewn cyfarwyddyd i awdurdodau lleol. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd o'r fath.

**104.** O fewn y Memorandwm Esboniadol mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi cefndir yr arolwg o ymgeiswyr.[73] Nodir yn y datganiad o fwriad polisi, o ganlyniad

[73] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.61–3.70

i'r newid arfaethedig sydd i'w gyflwyno gan adran 26, y "bydd yn haws newid elfennau o'r arolwg wrth i bolisïau amrywiaeth a chydraddoldeb ddatblygu."[74]

**105.** Eglurodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym pam mae'r Bil yn ceisio newid y pŵer ym Mesur 2011:

> *"Ar hyn o bryd mae Adran 1 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gwestiynau a fformat yr arolwg gael eu nodi mewn rheoliadau. Mewn gwirionedd, mae hyn wedi golygu bod unrhyw newidiadau i'r arolwg, naill ai o ran cyflwyniad neu'r cwestiynau a gynhwysir, wedi golygu defnyddio pwerau rheoleiddio Gweinidogion Cymru. Mae hyn wedi denu beirniadaeth am yr hyblygrwydd i ddiwygio'r arolygon mewn modd amserol a'r dull deddfwriaethol anghymesur y bu'n rhaid ei fabwysiadu ym mhob achos.*
>
> *Y dull a gynigir drwy'r Bil yw dileu'r gofyniad hwn a galluogi dull mwy hyblyg ac ystwyth o ystyried a phenderfyniadau ynghylch cynnwys a fformat yr arolwg. Mae'r dull hwn wedi cael ei groesawu gan bartneriaid, yn enwedig gan y bydd cwmpas yr arolwg a nodir yn y Mesur yn aros fel ag y mae ar hyn o bryd.*
>
> *Mae'r Bil yn darparu bod arolygon yn y dyfodol yn cynnwys dwy ran. Y rhan gyntaf fydd cyfres graidd o gwestiynau a fydd yn berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan ganiatáu i gymariaethau pwysig gael eu gwneud o ymatebion ar draws pob rhan o Gymru. Byddai'r ail ran yn ôl disgresiwn swyddogion canlyniadau, a all adlewyrchu'r cyd-destun a'r blaenoriaethau lleol."*[75]

## Ein barn ni

**106.** Nodwn gyfiawnhad y Cwnsler Cyffredinol dros newid pŵer deddfu Gweinidogion Cymru ym Mesur 2011 i bŵer rhoi cyfarwyddyd.

[74] Datganiad o fwriad polisi, tudalen 13
[75] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 5

## Adran 27 (Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig)

**107.** Mae adran 27 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu a chynnal platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am etholiadau datganoledig. Mae hefyd yn rhoi modd (ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol) i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwybodaeth a ddylai fod ar gael ar y platfform mewn perthynas ag etholiadau cynghorau cymuned a maerol yng Nghymru, gan gynnwys cyhoeddi datganiadau ymgeiswyr.

**108.** Dywedir yn y Memorandwm Esboniadol y gall Gweinidogion Cymru "benderfynu pwy yw'r sefydliad gorau i ddarparu ar gyfer platfform o'r fath".[76] Dywedir yn y datganiad o fwriad polisi:

> *"… rhagwelir y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn rhoi'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ar waith. Bydd adran 27(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Gallai rheoliadau o'r fath roi swyddogaethau i'r Comisiwn (i'w harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol) mewn perthynas â'r platfform hwnnw."*[77]

**109.** Gan hynny, gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam, pe bai Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn bwrw ymlaen â'r platfform, nad oedd yn darparu ar gyfer y fath beth ar wyneb y Bil. Dywedodd wrthym:

> *"… the intention is that the electoral management board will be the body. Whether that is the case in the long term, it depends what lessons you learn first on, whether there might be other options in terms of that platform being organised on an all-Wales scale, and whether the EMB might be the appropriate body. At the moment, there's no reason to think that it wouldn't be, but there is that flexibility in terms of what might happen in*

[76] Memorandwm Esboniadol, tudalen 50, colofn 4
[77] Datganiad o fwriad polisi, tudalen 5

*the future, what recommendations might come from the post-electoral scrutiny."*[78]

**110.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd nad yw'r Bil yn darparu'r manylion hyn oherwydd:

> *"… you just don't know what the recommendations might be for the future or what the recommendations or what the views might be from the electoral management board. They might come up with proposals themselves. So, basically, there's nothing in mind as far— . The only thing we have in mind at the moment is that the electoral management board that is being created is being created, and that is one of its very specific purposes, but there might be opportunities. There might be a better way of doing things, so it's just to build in that possibility and that flexibility."*[79]

**111.** Mewn gohebiaeth, ailadroddodd y Cwnsler Cyffredinol ei farn:

> *"Rydym o'r farn bod yr EMB [y Bwrdd Rheoli Etholiadol] yn debygol o fod yn westeiwr naturiol ar gyfer y platfform, fodd bynnag, nid yw'r EMB wedi'i sefydlu eto ac felly dylem gadw mewn cof y posibilrwydd na fydd yr EMB yn gallu cynnal y platfform, neu o well dewis arall yn cael ei nodi. O ystyried y bydd y gwesteiwr yn cael ei nodi yn y rheoliadau a wneir o dan adran 27, mae'n anochel y bydd y Senedd yn ystyried y gwesteiwr pan fydd yn ystyried y rheoliadau hynny.*
>
> *Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i'w gwneud yn glir y byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sicrhau cynaliadwyedd unrhyw blatfform. Mae lle i westeiwr y platfform gael ei ailystyried yn y dyfodol, gan ystyried yr amgylchedd technolegol sy'n symud yn gyflym, y cyfle i ddysgu gwersi o brofiad, a barn yr*

[78] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [69]
[79] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [93]

> *EMB ei hun unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Mae'r darpariaethau felly'n darparu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gwersi o werthusiadau etholiadau, tra'n sicrhau bod platfform yn cael ei ddarparu."*[80]

**112.** Mae adran 27(4) yn darparu y caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i bersonau neu gategorïau o bersonau a bennir yn y rheoliadau. Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol egluro pa swyddogaethau y rhagwelir y byddant yn cael eu rhoi fel hyn, ac i egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil. Yn ei ymateb, dywedodd:

> *"Bydd y rheolau manwl sy'n sail i lwyfan gwybodaeth etholiadau Cymru yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27. Er mai bwriad y Llywodraeth yw y dylai Gweinidogion Cymru fod yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y platfform yn cael ei sefydlu, bydd cyfranogiad rhanddeiliaid eraill yn hanfodol wrth sicrhau bod y platfform yn gweithredu'n llawn. Mae diben adran 27(4) yn adlewyrchu'r sefyllfa honno: yn ogystal â chael ei ddefnyddio i bennu gwesteiwr gweithredol y platfform, gall hefyd fod yn angenrheidiol ymgorffori elfennau o'r platfform yn elfennau presennol y broses etholiadol. Mae'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn bydd mewn rheoliadau yn sicrhau hyblygrwydd i ystyried y cyd-destun cyfreithiol a thechnolegol sy'n symud yn gyflym, gyda'r craffu priodol ar waith. Mae'r dull cytbwys wedi cael ei groesawu'n benodol gan sefydliadau cymdeithas sifil."*[81]

---

[80] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 2

[81] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 6

## Ein barn ni

**113.** Rydym yn cydnabod datganiad y Cwnsler Cyffredinol mai Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod platfform gwybodaeth etholiadau Cymreig yn cael ei sefydlu.

**114.** Fodd bynnag, credwn, lle mae deddfwriaeth sylfaenol yn darparu bod yn rhaid sefydlu endid, y dylai hefyd ddatgan pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau y bydd yn cael ei gynnal y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Credwn fod hyn o bwysigrwydd arbennig lle mai pwrpas yr endid hwnnw – yn yr achos hwn, platfform gwybodaeth etholiadau Cymreig – yw cynnal gwybodaeth mewn ffordd annibynnol. Ar ben hynny, gan y gellir disgwyl i westeiwr y platfform gyhoeddi datganiadau ymgeiswyr, credwn bod annibyniaeth y corff hwnnw, a'r canfyddiad o annibyniaeth, yn hanfodol os bydd sefyllfa'n codi lle mae'n gwrthod cyhoeddi datganiad ymgeisydd.

**115.** Nodwn ddatganiad y Cwnsler Cyffredinol fod y cwestiwn ynghylch pwy fydd yn cynnal y platfform yn anochel yn fater i'r Senedd ei ystyried wrth feddwl am y rheoliadau a wneir o dan adran 27. Fodd bynnag, bydd y Senedd yn wynebu dewis deuaidd o ran a ddylid cymeradwyo gwesteiwr arfaethedig Gweinidogion Cymru o fewn y rheoliadau hynny ai peidio; ni fyddant yn gallu ceisio diwygio'r cynnig hwnnw yn yr un modd ag y gallant wrth ystyried Bil.

**116.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yw'r gwesteiwr naturiol ar gyfer y platfform; fodd bynnag, mae hefyd o'r farn y dylid darparu lle yn y Bil er mwyn ailedrych ar y gwesteiwr yn y dyfodol.

**117.** Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi nodi gwesteiwr arall ar hyn o bryd; gan hynny, rydym o'r farn y dylai'r Bil roi sicrwydd ar ei wyneb ynghylch pa gorff fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r platfform, boed hynny'r Bwrdd Rheoli Etholiadol neu'n gorff arall.

**Argymhelliad 11.** Dylid diwygio'r Bil i bennu pa gorff fydd yn gyfrifol am gynnal platfform gwybodaeth etholiadau Cymreig.

**118.** Rydym yn nodi cyfiawnhad y Cwnsler Cyffredinol dros beidio â chynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r swyddogaethau y gellir eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran

27. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Bil bennu'r swyddogaethau y gellir eu rhoi, gan fod y ddarpariaeth fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn eang. Pe na bai'r Bil yn cael ei ddiwygio fel hyn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad pellach o fwriad polisi ar gyfer rheoliadau i'w gwneud o dan adran 27, a ddylai gynnwys manylion am y swyddogaethau a ragwelir y gellir eu rhoi.

**Argymhelliad 12.** Dylid diwygio'r Bil i bennu'r swyddogaethau y gellir eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 o'r Bil.

**Argymhelliad 13.** Os na chaiff argymhelliad 12 ei dderbyn, dylai Llywodraeth Cymru, cyn diwrnod cyntaf Cyfnod 2 o'r Bil, gyhoeddi datganiad o fwriad polisi i amlinellu'r swyddogaethau y gellir eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 o'r Bil.

## Adran 29 (Cynlluniau cymorth ariannol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig)

**119.** Mae adran 29 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddarparu ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr mewn etholiad yng Nghymru sydd â nodweddion penodol neu amgylchiadau penodedig i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy'n gysylltiedig â'r nodweddion neu'r amgylchiadau hynny. Yn achos ymgeiswyr sy'n anabl, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynllun cymorth ariannol o'r fath.

**120.** Mae Adran 29(8) yn darparu y caiff rheoliadau o dan yr adran, ymhlith pethau eraill, roi swyddogaethau i unigolyn.

**121.** Gofynnom mewn gohebiaeth ysgrifenedig i'r Cwnsler Cyffredinol egluro pa swyddogaethau y rhagwelir y byddant yn cael eu rhoi i unigolion drwy reoliadau a wneir o dan adran 29(8), ac egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil. Yn ei ymateb, dywedodd:

> *"Mae Adran 29 o'r Bil yn darparu bod cynlluniau cymorth ariannol ar gael i grwpiau o bobl a ragnodir mewn rheoliadau sy'n ceisio sefyll am swydd etholedig. Bydd un cynllun o'r fath (adran 29(2)) ar gyfer pobl anabl, gan adeiladu ar y cynllun peilot*

*Mynediad at Gronfa Swyddi Etholedig. Mae adran 29(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cynlluniau eraill o'r fath ar waith pan fo tystiolaeth yn nodi rhwystrau rhag costau ychwanegol a brofir gan unigolion o grŵp penodol o bersonau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n eu hatal rhag sefyll am swydd etholedig.*

*Mae adran 29(8) yn darparu i Weinidogion Cymru nodi'r trefniadau manwl ar gyfer pob cynllun cymorth ariannol ar wahân gan gynnwys y rhai sydd i weinyddu'r cynllun, cydrannau'r cynllun a'r trefniadau adrodd sy'n ofynnol at ddibenion archwilio. Gan y bydd cynlluniau unigol yn targedu rhwystrau gwahanol rhag cymryd rhan, mae'n briodol bod y manylion wedi'u nodi mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Bydd hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod manylion pob cynllun yn sail i'w ddiben ac yn galluogi cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd."*[82]

## Ein barn ni

**122.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch adran 29 o'r Bil.

**123.** Rydym yn nodi cyfiawnhad y Cwnsler Cyffredinol dros beidio â chynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r swyddogaethau y gellid eu rhoi i unigolion drwy reoliadau a wneir o dan adran 29.

**124.** Fodd bynnag, credwn, gan y bydd rheoliadau o'r fath yn ymwneud â chymorth ariannol a gwario arian cyhoeddus, y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad pellach o fwriad polisi ar gyfer rheoliadau i'w gwneud o dan adran 29, a ddylai gynnwys manylion am y swyddogaethau y rhagwelir y gellir eu rhoi i unigolion drwy reoliadau a wneir o dan yr adran honno.

[82] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 7

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru, cyn diwrnod cyntaf Cyfnod 2 o'r Bil, gyhoeddi datganiad o fwriad polisi i amlinellu'r swyddogaethau y gellir eu rhoi i unigolion o fewn rheoliadau a wneir o dan adran 29 o'r Bil.

## Adran 38 (Cod Ymarfer ar reolaethau sy'n ymwneud â thrydydd partïon)

**125.** Mae Adran 38(2) o'r Bil yn mewnosod is-adran newydd (1A) yn adran 100A o *Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (Deddf 2000), i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi cod ymarfer ar wariant rheoledig gan drydydd partïon yn ystod cyfnod cyn etholiad datganoledig yng Nghymru pan fo terfynau a rheolau gwariant yn berthnasol (cyfnod wedi ei ddatganoli a reoleiddir yng Nghymru).

**126.** Mae adran 38(4) yn mewnosod adran 100C newydd yn Neddf 2000 sy'n nodi'r broses mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ei dilyn wrth baratoi'r cod ymarfer, sy'n cynnwys ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac unrhyw un arall mae'r Comisiwn Etholiadol o'r farn eu bod yn briodol.

**127.** Mae is-adrannau (11) a (12) o'r adran 100C newydd a fewnosodwyd yn Neddf 2000 yn darparu:

- os newidir enw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, mae'r cyfeiriad at y Pwyllgor hwnnw i'w ddarllen fel cyfeiriad at y Pwyllgor yn ôl ei enw newydd;
- os yw swyddogaethau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth basio'r Bil mewn perthynas â materion etholiadol (neu swyddogaethau sy'n cyfateb yn sylweddol i faterion o'r fath) yn dod yn swyddogaethau pwyllgor gwahanol yn Senedd Cymru, mae'r cyfeiriad at y Pwyllgor hwnnw i'w ddarllen fel cyfeiriad at y pwyllgor sydd â'r swyddogaethau hynny am y tro.

**128.** Gofynnom i'r Cwnsler Cyffredinol egluro pa mor briodol yw ymgynghori â'r Pwyllgor hwn a Phwyllgor y Llywydd. Dywedodd wrthym:

> *"... it's just the importance of the regulations themselves in respect of third-party financing, and so on, and if there were to be changes to a code of practice, then it's the way in which that is actually considered and the status that it's given."*[83]

**129.** Fe wnaeth swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Cwnsler Cyffredinol hefyd nodi'r rhesymeg sy'n sail i'r ddarpariaeth hon:

> *"The Llywydd's Committee is a committee that's already mentioned in legislation. We have the Senedd and Elections (Wales) Act 2020, which also places a particular role on the Llywydd's Committee, so we see that there's some sort of precedent there. But also, the other point to note is that these provisions replicate existing provisions that the UK Government introduced to the Elections Act 2022, and they also made the decision to name the Speaker's Committee and, I think, the Levelling Up, Housing and Communities Committee in the Houses of Parliament to scrutinise it. So, what we sought to do there was basically mirror existing practice, and also the corresponding provisions that would apply to reserved elections."*[84]

## Ein barn ni

**130.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch adran 38 o'r Bil.

**131.** Credwn y dylid croesawu ymgynghori statudol gyda phwyllgorau'r Senedd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn beth newydd i ni y dylid cyfeirio at y Pwyllgor hwn – pwyllgor anstatudol, yn wahanol i Bwyllgor y Llywydd – fel ymgynghorai statudol o fewn deddfwriaeth sylfaenol.

**132.** Nodwn fod adran 38 yn cynnwys darpariaeth i sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor hwn pe bai'n newid ei enw, neu pe bai ei swyddogaethau mewn

---

[83] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [135]
[84] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [136]

perthynas â materion etholiadol (neu swyddogaethau sy'n cyfateb yn sylweddol i faterion o'r fath)[85] yn dod yn swyddogaethau pwyllgor Senedd arall.

**133.** Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith nad yw'r Senedd wedi cynnwys mater o'r fath, na mater cyfatebol, yn benodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn,[86] nid yw'n eglur i ni gyda pha Bwyllgor yr ymgynghorir ag ef yn y Senedd yn y dyfodol pe bai'n penderfynu peidio â sefydlu Pwyllgor gyda'r enw hwn, neu beidio cynnwys materion etholiadol (neu swyddogaethau sy'n cyfateb yn sylweddol i faterion o'r fath) o fewn cylch gwaith unrhyw bwyllgor.

**134.** Gan hynny, credwn y dylid diwygio'r geiriad o fewn adran 38 o'r Bil i roi sicrwydd ynghylch pa bwyllgor yn y Senedd y mae'n rhaid ymgynghori ag ef.

**Argymhelliad 15.** Dylid diwygio'r Bil i ddisodli cyfeiriadau at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda chyfeiriadau at "bwyllgorau priodol y Senedd", neu eiriad tebyg o'r fath, i roi sicrwydd yn y gyfraith.

## Adrannau 41 a 51 (Y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau prif ardal; Adolygiadau cymunedol a'u gweithredu)

**135.** Mae adran 41 o'r Bil yn diwygio adran 29(3) o Ddeddf 2013 i newid hyd cylch adolygiadau'r Comisiwn Ffiniau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal, o 10 i 12 mlynedd. Mae is-adran (2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, i ddiwygio adran 29(3) o Ddeddf 2013. Gan hynny, mae'r grym deddfu hwn yn bŵer Harri'r Wythfed.

**136.** Mae'r datganiad o fwriad polisi yn cyfiawnhau cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r pŵer Harri'r Wythfed hwn gan yr ystyrir bod newid hyd cyfnod adolygu:

> *"… yn fanylyn technegol y gallai fod ei angen os bydd tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a fyddai'n ysgogi defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiad llywodraeth*

[85] Adran newydd 100C(3)(b) o Ddeddf 2000, sydd i'w mewnosod gan adran 38(4) o'r Bil.
[86] Y Cyfarfod Llawn, 23 Mehefin 2021, Cofnod y Trafodion

*leol neu i ddarparu mwy o synergedd rhwng cyfnodau adolygu trefniadau prif ardal a chymunedau."*[87]

**137.** Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol yr esboniad a ganlyn i ni pam nad yw'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol:

> *"Er bod swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cynnal adolygiadau fel y'u cyflwynwyd yn y Bil yn realistig, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar Weinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod adolygu (os oes angen) yng ngoleuni profiadau'r Comisiwn wrth gwblhau adolygiadau trefniadau etholiadol ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.*
>
> *Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth gul hon i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol wedi'i gyfyngu i ddiwygio'r cyfnod adolygu. Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, ac mae testun y pŵer yn fanylder cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol. Mae cynsail eisoes i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adolygu sy'n berthnasol i'r Comisiwn drwy wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol – gweler adrannau 138(6) a 174(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – ac felly rydym o'r farn bod defnyddio'r weithdrefn negyddol yn briodol ac yn gymesur."*[88]

**138.** Mae adran 51 o'r Bil yn diwygio adran 22 o Ddeddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad ei swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 ac adran 76 o

[87] Datganiad o fwriad polisi, tudalen 20
[88] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 8

*Ddeddf Llywodraeth Leol 1972* (Deddf 1972) mewn perthynas â chadw golwg ar ei threfniadau cymunedol.

**139.** Mae adran 51(3)(a) yn mewnosod isadrannau newydd yn Neddf 1972 i egluro dyletswydd cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol i gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned unwaith ym mhob cyfnod adolygu. Mae'r cyfnod adolygu i fod yn 12 mlynedd, ac mae'r is-adran hefyd yn darparu y gall Gweinidogion Cymru newid hyd y cyfnod hwn drwy reoliadau. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau unwaith eto, felly, yn bŵer Harri'r Wythfed.

**140.** Yn yr un modd â'r cyfiawnhad a ddarperir ar gyfer drafftio pŵer Harri'r Wythfed o dan adran 41, mae'r datganiad o fwriad polisi yn nodi mewn perthynas â'r pŵer o fewn adran 51(3)(a):

> *"Mae newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau'r cyfnod adolygu yn fanylyn technegol y gallai fod ei angen os bydd tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a fyddai'n ysgogi defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiad llywodraeth leol neu i ddarparu mwy o synergedd rhwng cyfnodau adolygu trefniadau prif ardal a chymunedau."*[89]

**141.** Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol ragor o wybodaeth i ni am y pŵer hwn, ei ddefnydd a ragwelir a'r rhesymau pam y bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol i reoliadau gael eu gwneud oddi tani:

> *"Mae adran 51 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol. Mae'n ddarpariaeth debyg i'r hyn a nodir yn adran 41 y Bil ac yn sicrhau cysondeb o ran dull rhwng y gwahanol fathau o adolygiadau. …*
>
> *Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth gul hon i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn gyfyngedig i ddiwygio'r cyfnod adolygu. Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddf*

[89] Datganiad o fwriad polisi, tudalen 20

*Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, ac mae testun y pŵer yn fanylder cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol. Mae cynsail eisoes i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adolygu sy'n berthnasol i'r Comisiwn drwy wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol – gweler adrannau 138(6) a 174(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

*Y bwriad yw y bydd y weithdrefn negyddol hefyd yn berthnasol i newidiadau i'r cyfnod adolygu, fel y mae'n berthnasol i'r Comisiwn, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 41 o'r Bil. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod defnyddio'r weithdrefn negyddol i wneud newidiadau i'r cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol o dan adran 51 o'r Bil hefyd yn briodol ac yn gymesur, o ran gwneud hynny fel arall yn creu anghysondeb lle gellid diwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y Comisiwn gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol ac y byddai'n ofynnol i brif gynghorau ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Effaith hynny fyddai gofyn am weithdrefn gwneud rheoliadau manylach i newid y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol nag a fyddai'n ofynnol ar gyfer adolygiadau prif drefniadau etholiadol ardal."*[90]

## Ein barn ni

**142.** Nodwn dystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas ag adrannau 41 a 51 o'r Bil.

**143.** Rydym o'r farn y dylai rheoliadau sy'n gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**144.** Er ein bod ni'n nodi awgrym y Cwnsler Cyffredinol bod cynsail wedi ei osod gan Ddeddf 2021, nodwn hefyd fod canllawiau mewnol Llywodraeth Cymru ei

[90] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 9

hun yn awgrymu cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau sy'n gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol.[91]

**145.** Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cysondeb o ran dull gweithredu rhwng adrannau 41 a 51 o'r Bil.

**146.** Gan hynny, credwn mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adrannau 41 a 51 o'r Bil.

**Argymhelliad 16.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a wneir o dan adrannau 41 a 51 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Adran 61 (Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ac yn gynghorydd cymuned)

**147.** Mae adran 61 o'r Bil yn diwygio Deddf 2006 i anghymhwyso cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd, ac yn dileu'r cyfnodau gras ar gyfer y canlynol (y darperir hefyd ar eu cyfer gan y Ddeddf):

- prif gynghorwyr a etholwyd i'r Senedd;
- Aelodau o'r Senedd a etholwyd i brif gynghorau; ac
- Aelodau o'r Senedd a etholwyd yn Aelodau o Dŷ'r Cyffredin.

**148.** Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sy'n destun craffu ar hyn o bryd, hefyd yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ar sail preswyliad.[92]

**149.** Gofynnom felly i'r Cwnsler Cyffredinol, er budd hygyrchedd y gyfraith, egluro'r rhesymau dros gynnwys darpariaethau o fewn adran 61 o'r Bil, yn hytrach nag o fewn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Yn ei ymateb, dywedodd:

[91] Llywodraeth Cymru, Canllawiau Llywodraeth Cymru is-ddeddfwriaeth gweithdrefn gadarnhaol ddrafft neu negyddol y cynulliad, Ebrill 2012
[92] Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), fel y'i cyflwynwyd, adran 6

*"Wrth ddatblygu a pharatoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ystyriodd Llywodraeth Cymru, a'u partneriaid Cytundeb Cydweithredu ym Mhlaid Cymru, nifer o bolisïau a oedd yn ymwneud ag argymhellion gwreiddiol y Pwyllgor Diben Arbennig, ond nad oedd eu hunain yn argymhellion penodol i'r pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys y gwaharddiad sy'n gysylltiedig â phreswyliaeth. Mae'r darpariaethau anghymhwyso yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn rhan o becyn o ddiwygiadau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o bapur gwyn (Ymgynghoriad Papur Gwyn ar weinyddiaeth etholiadol a diwygio). Mae gan ddiwygiadau o'r fath oblygiadau penodol hefyd i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Nid oedd hyn yn cynnwys anghymhwysiad sy'n gysylltiedig â phreswylio.*

*Yn unol â hynny, ystyriwyd yn fwy priodol i'r anghymwysterau hyn gael sylw ar wahân, drwy'r ddau Fil. Mae'r ddau Fil yn cyflawni eu polisïau unigol drwy ddiwygio'r drefn anghymwyso bresennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd hyn yn golygu, os bydd y Biliau yn cael eu deddfu, y bydd un drefn anghymhwyso o hyd gan sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn hygyrch."*[93]

## Ein barn ni

**150.** Nodwn gyfiawnhad y Cwnsler Cyffredinol dros gynnwys darpariaethau mewn perthynas ag anghymhwyso o fewn y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

**151.** Rydym hefyd yn cydnabod y bydd y ddwy set o ddarpariaethau yn hygyrch, unwaith y cânt eu deddfu, o fewn Deddf 2006. Fodd bynnag, fel y dywedasom yn ein hadroddiadau eraill ar filiau a gyflwynwyd i'r Senedd,[94] mae'n cymryd peth amser i ddiweddaru deddfwriaeth bresennol ar wefannau sy'n hygyrch i'r

[93] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023, ymateb i gwestiwn 10
[94] Gweler, er enghraifft, paragraff 70 ein hadroddiad ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), a pharagraff 62 ein hadroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

cyhoedd gyda gwelliannau sydd newydd eu deddfu. Yn y cyfamser, mae'n ofynnol i ddefnyddwyr deddfwriaeth naill ai ddibynnu ar wasanaethau tanysgrifio â thâl i weld diweddariadau o'r fath, neu groesgyfeirio at sawl eitem o ddeddfwriaeth.

## Adran 67 (Rheoliadau: cyfyngiadau)

**152.** Mae adran 67 yn darparu na chaiff rheoliadau a wneir o dan y Bil gynnwys darpariaeth a fyddai'n gofyn am gydsyniad y Gweinidog priodol o dan baragraffau 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys yn un o Ddeddfau Senedd Cymru. Mae hefyd yn darparu na chaiff rheoliadau a wneir o dan y Bil naill ai gynnwys darpariaeth a fyddai'n gofyn am ymgynghori â'r Gweinidog priodol o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys yn un o Ddeddfau Senedd Cymru.

**153.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym mai pwrpas yr adran hon yw darparu eglurder.[95] Rhoddodd swyddog a oedd yn bresennol gydag ef ragor o fanylion am y dull a ddefnyddiwyd:

> *"… because those restrictions that are described in section 67, they're of a fundamentally different character to the other restrictions that are in that Schedule. You'll see from looking at that Schedule that some things are ruled out completely. The difficulty with those particular paragraphs is that they concern consent or consultation, and it isn't possible to establish from looking at a Bill normally whether consent has been given or consultation has happened. So, what we've sought to do there is simply make it clearer. We thought it was desirable to ensure that the Bill made clear what can and can't be done in terms of the regulation-making powers."*[96]

[95] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [145]
[96] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023, Cofnod y Trafodion [146]

## Ein barn ni

**154.** Rydym yn croesawu'r eglurder a ddarperir gan adran 67 o'r Bil.